


# Merton Place

Cartref Preswyl a Nyrsio a adeiladwyd i'r diben, gyda gofal o safon uchel 24 awr y dydd.

A purpose-built Residential and Nursing Home with 24-hour high quality care.

## Lleoliad

Saif Merton Place yng nghanol ei erddi hardd ei hun, sy'n addas ar gyfer cadeiriau olwyn, mewn ardal gadwraeth dawel. Mae'r cyfleusterau a'r siopau lleol o fewn pellter cerdded byr. Mae'n hawdd ei gyrraedd trwy'r cysylltiadau teithio cyfleus. Mae Merton Place yn rhan o'r gymuned leol, gan gynnig preifatrwydd a diogelwch o'r radd flaenaf i'r preswylwyr.

## Location

Merton Place is set amongst its own beautifully landscaped gardens, which are fully wheelchair accessible, in a quiet, conversation area. Local amenities and shops are within a short walking distance away. Accessibility is easy via the convenient transport links. Merton Place blends in with the local community, providing a high level of privacy and security for its residents.




## Cysylltwch â ni

Mae croeso cynnes i chi alw neu ymweld â ni i weld safon uchel y gofal sydd gennym i'w gynnig; rydym yn argymell i chi wneud hyn gan y bydd yn rhoi cyfle gwych i chi ofyn cwestiynau a bydd hefyd yn ein galluogi i ateb eich ymholiadau.

**Merton Place**
01492 523375
neu ewch i mertonplace.co.uk

8 Pwllycrochan Avenue
Bae Colwyn, Conwy, LL29 7BU

Rheolir Merton Place gan ClwydAlyn, darparwr llety a gwasanaethau gofal arbenigol sefydledig, uchel ei barch.

## Contact us

You are very welcome to call or visit us so you can see the high standard of care we have to offer; we recommend you do this as it will give you a great opportunity to ask questions and it will also enable us to progress with your enquiries.

**Merton Place**
01492 523375
or visit mertonplace.co.uk

8 Pwllycrochan Avenue
Colwyn Bay, Conwy, LL29 7BU

Merton Place is managed by ClwydAlyn a well-established, respected provider of specialist care accommodation and services.

Mae Merton Place yn gartref gofal modern, wedi ei adeiladu i'r diben, yn cynnig gofal nyrsio preswyl ac arbenigol i hyd at 54 o bobl hŷn. Gall hyn amrywio o ofal seibiant tymor byr a gofal lliniarol, i ofal 'diwedd oes'.

Merton Place is a modern, purpose-built care home, providing residential and specialist nursing care for up to 54 elderly people. This can range from short term respite care and palliative care, to 'end of life' care.





ClwydAlyn

Ar y cyd â
In conjunction with:

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Mae Merton Place yn gartref sydd wedi ei drefnu dros dri llawr ac mae'r tu mewn yn olau ac eang gyda'r holl ystafelloedd gwely a'r ardaloedd cymunedol mawr wedi eu haddurno a'u cynnal a'u cadw i safon uchel.

Laid out over three floors, Merton Place's interior is light and airy with all bedrooms and all extensive communal areas decorated and maintained to a high standard. Merton Place is ideally equipped to provide support for elderly people.

**Nodweddion Allweddol:**

- 54 Ystafell sengl
- Cyfleusterau en-suite
- Lolfa ar bob llawr
- Cegin fechan ar bob llawr
- Salon Trin Gwallt
- Ffioedd cystadleuol – sydd wedi eu cynllunio i fod o fewn cyrraedd i bawb
- Trefnydd gweithgareddau penodedig
- System alw Nyrs flaengar
- Gofal a chefnogaeth hyblyg yn ôl anghenion yr unigolyn fel maent yn newid
- Tîm gofal wedi eu hyfforddi'n drwyadl sy'n broffesiynol a chyfeillgar
- Hygyrch i gadeiriau olwyn
- Ardal Ysmygu Benodol
- Mynediad i'r rhyngrwyd ar gael
- Bydd y preswylwyr yn mwynhau dewis o brydau maethlon, amrywiol o safon uchel y gellir eu paratoi ar gyfer amrywiaeth o anghenion maeth, dietegol a gofynion dietegol categori arbenigol
- Mewn ardal gadwraeth dawel a diogel

**Key Features:**

- 54 Single rooms
- En-suite Facilities
- Lounge on each floor
- Kitchenette on each floor
- Hair salon
- Competitive fees – designed to be accessible to all
- Dedicated activities co-ordinator
- Advanced Nurse call system
- Flexible care and support according to the individual's changing needs
- Highly trained professional and friendly team
- Wheelchair accessible
- Designated smoking area
- Internet access available
- Residents will enjoy high quality, nutritious and varied selection of meals which can be catered for in order to meet a variety of nutritional, dietary and specialist category dietary requirements
- Set in a quiet, safe and secure Conservation area

**Tawelwch Meddwl**

Mae ein holl staff wedi eu hyfforddi'n broffesiynol ac yn gymwys ar gyfer eu gwaith penodol. Yn ychwanegol maent yn dilyn hyfforddiant datblygu cyson i sicrhau eu bod yn parhau yn ymatebol ac yn gallu bodloni anghenion y preswylwyr. Mae ein staff yn cefnogi ein preswylwyr mewn amgylchedd hamddenol a chartrefol.

**Peace of Mind**

All our staff are trained professionally and qualified appropriate to their respective roles. In addition, they undertake regular development training to ensure they remain responsive and are able to meet the resident's needs. Our staff support our residents in a relaxed and homely environment.





"Mae'r ystafelloedd yn agored iawn, mae'r dodrefn modiwlaidd isel yn rhoi teimlad bod pawb gyda'i gilydd ond eto yn cael preifatrwydd a thawelwch pan fydd angen; ac mae'r lliwiau golau a'r dodrefn trwyddo yn werth eu gweld. Rydym yn gwybod mai dim ond lles fydd y newid hwn yn ei wneud i'm modryb".

Aelod o'r Teulu

"A beautiful open-plan layout, the low-rise modular arrangement of furniture, giving everyone a sense of being together whilst also having privacy and quiet when wanted; the bright colours of the décor and furnishings throughout. We know this change of care home for my aunt can only do good".

Family Member

**Ein Gofal**

Mae ein dull o gynnig gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn a'n perthynas â'r unigolyn, gan ganolbwyntio ar ei anghenion unigol, gofal a chefnogaeth - i gadw preifatrwydd, urddas, annibyniaeth a dewis. Mae ein holl breswylwyr yn cael gofal proffesiynol o safon uchel, sy'n cael ei ddarparu yn llawn parch a meddylgarwch.

**Our Care**

Our approach to care is centred on the person and our relationship with the person, a focus on individual needs, care and support - to maintain privacy, dignity, independence and choice. All our residents receive high-quality professional care, which is delivered with thoughtfulness and respect.

**Hyrwyddo Annibyniaeth**

Rhoddir anogaeth i annibyniaeth trwy ganiatáu i bob defnyddiwr gwasanaeth barhau i helpu ei hun hyd eithaf ei allu, ond gyda chymorth y staff pan fydd angen hynny, gan eu galluogi i gadw ymdeimlad o fod wedi cyflawni rhywbeth a theimlo'n dda.

**Promoting Independence**

Independence is encouraged by allowing each resident to continue to help themselves to the best of their ability, but with the assistance of staff where necessary, enabling them to maintain a sense of fulfilment and well-being.